



**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for
Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

www.llyw.cymru

Glastir

Sylfaenol ac Uwch: Camgymeriadau Cyffredin

**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**



Gwaith Papur y Cynllun

O osgoi gwneud camgymeriad, dylai busnesau fferm gydymffurfio â'u contract a rheoli eu tir a chadw cofnodion yn unol â'r opsiynau rheoli.

Dylai busnesau fferm droi bob tro at fersiwn ddiweddaraf eu contract a'u mapiau. Fe welwch yr wybodaeth hon ar y Tab Glastir ar RPW Ar-lein - O fis Mawrth 2018.

Camgymeriadau Cyffredin:

- Heb gwblhau neu ddiweddarau'r Dyddiadur Gwaith, y Dyddiadur Stocio neu'r Cynllun Rheoli Maethynnau.
- Heb roi gwybod o fewn 30 niwrnod bod tir wedi'i werthu neu ei drosglwyddo.
- Heb roi gwybod i Taliadau Gwledig Cymru (RPW) bod Gwaith Cyfalaf Glastir Sylfaenol wedi'i gwblhau.

Ffurflen y Cais Sengl (SAF)

Wrth lenwi'r SAF, dylai busnesau fferm ddefnyddio'r codau cnydau sy'n disgrifio orau beth sy'n cael ei wneud â'r tir.

Mae'n bwysig cofio, pan fyddwch yn newid arwynebedd cymwys cae neu'r gweithgarwch rydych yn ei gynnal arno, eich bod yn edrych eto ar y codau cnydau i sicrhau eu bod dal yn gywir.

Camgymeriadau Cyffredin:

- Cyflwyno'r SAF yn hwyr.
- Heb gael tystiolaeth ddogfennol ar gyfer yr opsiwn bridiau brodorol (opsiwn 37) a thaliad chwyddo llaeth Glastir Sylfaenol.
- Heb ddatgan arwynebedd cymwys (e.e. heb ddatgan digon o dir i gefnogi opsiynau a'r pwyntiau cysylltiedig i groesi Trothwy Pwyntiau Glastir Sylfaenol).
- Torri amod ymuno â chynllun.
- Defnyddio'r cod cnydau anghywir - y 5 camgymeriad mwyaf cyffredin yw:
 1. **Opsiw 100, Coetir Di-stoc** - mae llawer yn rhoi'r cod coetir anghywir. Cofiwch ddefnyddio cod sy'n dangos nad yw'r coetir yn cael ei bori.
 2. **Opsiw 15, Dim mewnbynnau** - mae'r opsiwn hwn yn cael ei gynnal fel arfer ar dir pori, felly byddai disgwyl ichi ddefnyddio cod porfa.
 3. **Opsiyau 11, 12 ac 172, rheoli a sefydlu perllan** - mae llawer yn rhoi'r cod anghywir. Dylech ddefnyddio cod cnydau perllan i ddatgan yr opsiynau hyn.
 4. **Opsiw 173, Coridor Glan-nant** - heb ddefnyddio'r cod coridor nant. Byddai ei ddatgan fel glaswelltir neu goetir yn methu prawf Llywodraeth Cymru.
 5. **Opsiyau 32 a 32b, Gwreiddgnydau heb eu chwistrellu** - cofiwch ddatgan yr opsiynau hyn fel ail gnydau.

Cod y Fferm Gyfan

Rhaid cadw at God y Fferm Gyfan ar yr holl dir sy'n rhan o'r contract. Mae manylion y gofynion wedi'u nodi yn y contract.

Camgymeriadau Cyffredin:

- Heb gadw at y gofynion sy'n ymwneud â nodweddion hanesyddol, hen goed, sbwriel, cyrsiau dŵr, storio tail a hawliau tramwy cyhoeddus.
- Heb gadw at y rheolau sy'n ymwneud â thir cynefin.

Opsiynau Rheoli

Mae set o ofynion yn perthyn i bob opsiwn rheoli. Maen nhw wedi'u nodi yn eich contract. Rhaid ichi hefyd fodloni'r rheolau sy'n ymwneud â thir cynefin wrth gynnal opsiynau rheoli cynefinoedd.

Camgymeriadau Cyffredin:

- Heb gadw at y gofynion o ran uchder y borfa a chyfraddau stocio.
- Heb ddigon o dir ar gyfer opsiynau tir â neu sefydlu opsiwn ar dir anaddas.
- Rhoi porthiant atodol i anifeiliaid ar dir cynefin.
- Stoc yn cael mynd ar dir opsiwn gwahardd stoc.
-

Gwaith Cyfalaf

Rhaid cwblhau pob darn o waith cyfalaf yn unol â'r disgrifiad yn nodiadau technegol y contract.

Ni ddylai busnes fferm hawlio taliad am gynnal gwaith cyfalaf nes ei fod wedi'i gwblhau. Os ydych am newid Gwaith Cyfalaf, rhaid gwneud cais a rhaid i'r cais hwnnw gael ei gymeradwyo cyn cwblhau'r gwaith.

Er mwyn cael newid manyleb Gwaith Cyfalaf, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid trwy RPW Ar-lein.

Rhaid cwblhau'r Gwaith Cyfalaf yn y flwyddyn a nodir yn y contract a dylai busnesau fferm ddim gohirio gwneud y gwaith tan ddiwedd y flwyddyn pan fydd tywydd cas yn fwy tebygol.

Camgymeriadau Cyffredin:

- Gwaith wedi'i hawlio ond heb ei gwblhau.
- Gwaith heb ei gwblhau yn unol â'r gofynion.
- Cynnal y gwaith yn y lle anghywir.
- Hyd neu nifer yn brin o'i gymharu â'r hyn a hawlir.
- Gatiau metel wedi'u gosod yn lle rhai pren.
- Dim giardiaid unigol ar goed mewn tir parc neu berllan.
- Heb gael trwydded gwmpo ar gyfer bondocio perth/gwrych (hefyd yn gymwys i gontract Grantiau Bach Glastir).

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.